

RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:
62/2017
DYDDIAD CYHOEDDI:
05/10/2017

Arolwg Cenedlaethol Cymru profion gwybyddol ar gwestiynau incwm

Teitl: Arolwg Cenedlaethol Cymru profion gwybyddol ar
gwestiynau incwm

Awdur: Sophie Pilley

Mae'r barnau a fynegir yn yr adroddiad hwn yn perthyn i'r ymchwilydd ac
nid o reidrwydd yn cyd-fynd â barn Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Chris McGowan

Tîm Arolwg Cenedlaethol

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 025 1067

E-bost: chris.mcgowan@llyw.cymru

Tabl cynnwys

1.	Crynodeb gweithredol	2
2.	Cefndir a methodoleg	4
	Ymagwedd i'r adolygiad desg.....	4
	Beth yw cyfweiliadau gwybyddol?	5
	Beth a brofwyd?	5
	Recriwtio atebwyr	6
	Dadansoddiad	8
	Amseru	9
3.	Casgliadau ac argymhellion	10
	Adolygiad desg.....	10
	Profion gwybyddol	12
4.	Amseru	89

Rhestr o dablau

Tabl 2.1. Nodweddion sampl rownd 1	7
Tabl 2.2. Nodweddion sampl rownd 2	8
Tabl 4.1 Ffrâm godio amcangyfrif amser fformatau cwestiwn	89
Tabl 4.2 Amcangyfrifon amser ar gyfer cwestiynau incwm	90

1. Crynodeb gweithredol

- 1.1 Gyda'r Arolwg Cyflwr Tai Cymru (ACTC) yn cychwyn yng nghanol 2017, bydd Arolwg Cenedlaethol Cymru (Arolwg Cenedlaethol) yn gweithredu fel ffrâm sampl ar gyfer ACTC o ganol 2017, gyda chydysyniad i ofyn cwestiwn cyswllt i'r atebwyr. Gan fod cyswllt agos rhwng amodau byw ac incwm, mae angen ychwanegu cwestiynau incwm manylach i'r Arolwg Cenedlaethol, er mwyn gallu eu defnyddio ynghyd â chanlyniadau o'r ACTC. Mae incwm yn gysyniad sy'n neilltuoel o anodd ei fesur yn gywir, felly fe gysylltodd Llywodraeth Cymru (LIC) gyda NatCen i gyflawni adolygiad desg a phrofion gwybyddol i sicrhau bod cymaint o bobl â phosibl yn fodlon darparu'r wybodaeth hon a allai fod yn sensitif i rai, a bod yr wybodaeth a gesglir yn cwmpasu pob un o'r prif ffynonellau incwm mewn modd cywir. Adolygwyd y cwestiwn cydsyniad i gysylltu a deunydd rhag blaen yr Arolwg Cenedlaethol (llythyr, taflen a cherdyn post) a'u profi hefyd yn rhan o'r un prosiect. Mae'r adroddiad hwn yn ffocysu'n benodol ar y cwestiynau incwm. Adroddir ar wahân ar y casgliadau ynghylch y deunyddiau rhag blaen a'r cwestiwn cydsyniad.
- 1.2 Er mwyn gwerthuso'r cwestiynau incwm i' cynnwys yn yr Arolwg Cenedlaethol, comisiynwyd NatCen Social Research i gyflawni adolygiad desg a dwy rownd o gyfweiliadau profion gwybyddol. Cyflawnwyd yr adolygiad desg o gwestiynau gan ymchwiliwyr yng Nghanolfan Datblygu a Phrofi Holiaduron NatCen sy'n arbenigwyr o ran dylunio holiaduron a chyfweiliadau gwybyddol. Ar gyfer yr adolygiad hwn, defnyddiwyd fersiwn diwygiedig o'r System Gwerthuso Holiaduron (QAS-99) a ddatblygwyd gan y Research Triangle Institute.
- 1.3 Cynhaliwyd ugain o gyfweiliadau gwybyddol wyneb yn wyneb ar draws dwy rownd o brofion neuadd yng ngogledd a de Cymru, gyda dau glyweliad ffôn atodol gyda'r rhai oedd yn hunangyflogedig. Defnyddiwyd y rownd gyntaf o brofion i nodi unrhyw broblemau arwyddocaol gyda'r cwestiynau newydd. Defnyddiwyd yr ail rownd o brofion i ailbrofi newidiadau a wnaed i unrhyw gwestiynau a gafwyd i fod yn drafferthus yn rownd un. Cafodd atebwyr eu recriwtio yn defnyddio cwotâu a gynlluniwyd yn arbennig, i sicrhau bod amrediad o gwestiynau yn cael eu profi gyda chymaint o bobl â phosibl.
- 1.4 Dangosodd casgliadau'r profion gwybyddol bod y cwestiynau incwm yn gweithio'n dda, ar y cyfan. Roedd atebwyr yn gallu eu deall ac yn gyffredinol nid oeddynt yn cael eu bod yn rhy sensitif i'w hateb. Yn aml roedd tâl pobl yn amrywio o fis i fid oherwydd eu bod yn gweithio oriau a phatrymau shift gwahanol, ac ni nodwyd hyn yn dda yn y rownd gyntaf.

- 1.5 Mewn rhai achosion, awgrymwyd mân newidiadau i'r geiriad i wneud y cwestiynau yn fwy clir a dealladwy. Roedd hyn yn cynnwys cwestiwn gwirio i weld a oedd cyflogau pobl yn amrywio ar draws cyfnodau amser oherwydd gweithio gwahanol oriau neu wahanol batrymau shiftt cyn gofyn iddynt am eu cyflog. Cafodd y newidiadau hyn eu profi yn yr ail rownd o brofion.

2. Cefndir a methodoleg

- 2.1 Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn cynnig cyfle i bobl roi eu barn ar amrediad o bynciau yn cynnwys yr ardal leol a diogelwch, gwasanaethau cyhoeddus (h.y. iechyd ac addysg), iechyd personol a llesiant, a gweithgareddau hamdden. Yn cychwyn yn 2016-17, mae'r Arolwg Cenedlaethol yn cymryd lle pum arolwg cyfredol yng Nghymru ac yn cynnwys 12,000 o bobl a ddetholwyd ar hap ar draws Cymru pob blwyddyn. Gofynnodd Llywodraeth Cymru i gyflawni adolygiad desg a phrofion gwybyddol ar gwestiynau incwm newydd i sicrhau ei bod mor ddealladwy â phosibl a bod pobl yn teimlo'n gyfforddus yn eu hateb. Roedd Llywodraeth Cymru hefyd eisiau adolygu a phrofi nifer o ddeunyddiau rhag blaen a chwestiwn 'cydsynio i gysylltu dilynol' arolwg tai yn rhan o'r broses hon. O ganol 2017, bydd yr Arolwg Cenedlaethol yn darparu sampl ar gyfer Arolwg Cyflwr Tai Cymru (ACTC) gyda chwestiynau cydsynio i gysylltu ac incwm yn cael eu gofyn ar yr Arolwg Cenedlaethol.
- 2.2 Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r casgliadau o adolygiad desg y cwestiynau incwm a dwy rownd o brofion gwybyddol, yn ogystal ag amcangyfrifon o amseriad ar gyfer pob cwestiwn a holwyd yn yr ail rownd. Mae adroddiad ar wahân yn cynnwys y casgliadau o'r adolygiad desg ac o brofi'r deunyddiau rhag blaen a'r cwestiwn cydsynio.

Ymagwedd i'r adolygiad desg

- 2.3 Cyflawnwyd adolygiad desg manwl o'r cwestiynau gan ddau ymchwilydd o Ganolfan Datblygu a Phrofi Holiaduron NatCen, yn defnyddio fersiwn wedi'i gwtogi o'r System Gwerthuso Holiaduron (QAS 99¹). Mae'r QAS-99 yn ganllaw a ddefnyddir i adolygu cwestiynau arolygon i ganfod problemau posibl â geiriad neu strwythur cwestiwn. Mae'r QAS-99 yn nodi wyth cam y mae'n rhaid eu dilyn er mwyn asesu pob cwestiwn yn unigol. Y nod yw i nodi problemau posibl gyda chwestiynau cyn eu brofi'n wybyddol. Yr wyth cam a ddefnyddiwyd i adolygu'r cwestiynau oedd darllen, cyfarwyddiadau, eglurder, tybiaethau, gwybodaeth/cof, sensitifrwydd/rhagfarn, ymateb i gategoriâu ac arall. Arweiniodd yr adolygiad at addasiadau i'r cwestiynau cyn profion gwybyddol. Ceir rhagor o fanylion ar yr adolygiad desg ym Mhennod 3.

¹ Willis, G. B., a Lessler, J. T. (1999). Question appraisal system QAS-99. Rockville, MD: Research Triangle Institute

Beth yw cyfweiliadau gwybyddol?

- 2.4 Mae dulliau cyfweld gwybyddol yn cynnig cipolwg ar brosesau meddyliol atebwyr wrth ateb cwestiynau mewn arolygon, ac felly maent yn helpu ymchwilwyr i nodi problemau â geiriad cwestiynau a diwyg holiaduron. Defnyddir y dulliau hyn wedi cynnal adolygiad desg a therfynu geiriad cwestiwn. Mae'r dull yn ymchwilio i bedwar cam gwybyddol: (1) sut bydd atebwyr yn deall ac yn dehongli cwestiynau arolygon, (2) sut byddant yn galw i gof yr wybodaeth sy'n berthnasol i'r cwestiwn, (3) y penderfyniadau byddant yn eu gwneud ynghylch pa wybodaeth i'w defnyddio i lunio eu hatebion, a (4) y broses mapio ymatebion.
- 2.5 Defnyddiwyd cyfuniad o 'feddwl ar lafar' gan yr atebwyr (pobl yn trafod sut oeddynt wedi dod i benderfyniad ar eu hateb), arsylwadau'r cyfwelwyr a chwestiynau ymchwiliol wedi'u sgriptio i brofi cwestiynau'r arolwg. Gofynnwyd y cwestiynau ymchwiliol yn ôl-syllol ar ôl pob set o gwestiynau ynghylch pwnc penodol. Gan ddefnyddio'r dechneg 'meddwl ar lafar', gofynnwyd i atebwyr ddweud beth oeddent yn ei feddwl wrth iddynt gwblhau'r dasg o ddarllen y deunyddiau ac ateb y cwestiynau.
- 2.6 Fe wnaeth y cyfwelwyr a gyflawnodd y cyfweiliadau hefyd 'arsylwi' ar ymatebion yr atebwyr i'r cwestiynau a cheisio nodi unrhyw arwyddion o anesmwythdra, dryswch, embaras ac ati. Defnyddiodd cyfwelwyr gwestiynau ymchwiliol digymell (cwestiynau nad oeddynt wedi eu sgriptio ac sy'n adweithiol i'r atebwr) ble bynnag y nodwyd yr emosiynau hyn i wirio os oedd yr atebwr wedi deall y cwestiwn ac yn gyfforddus yn eu hateb.
- 2.7 Defnyddiwyd canllaw pynciau i gynnal y cyfweiliadau, a luniwyd trwy ymgynghori â Llywodraeth Cymru; mae'r canllawiau pynciau o'r ddwy rownd o brofion i'w gweld yn Atodiad A. Gan ddefnyddio'r dechneg 'cwestiynu ymchwiliol', holodd y cyfwelwyr gwestiynau penodol i ddeall sut oedd atebwyr yn dehongli geiriad y cwestiwn, a pha brosesau yr oeddent yn eu dilyn wrth benderfynu sut i ateb y cwestiwn.

Beth a brofwyd?

- 2.8 Cynhaliwyd profion gwybyddol ar set o gwestiynau incwm, yn ogystal â dau fersiwn o ddeunyddiau rhag blaen yr Arolwg Cenedlaethol, yn cynnwys y llythyr, y daflen a'r cerdyn post rhag blaen, yn ogystal â chwestiwn ynghylch cydsynio i arolwg ffisegol dilynol o eiddo'r ymatebydd. Cynhaliwyd dwy rownd o brofion gwybyddol. Cynhaliwyd y gyntaf ar 10 Ionawr 2017 yng Nghaerdydd, a'r ail yn Wrecsam,

Gogledd Cymru, ar 22 Ionawr 2017. Roedd yr ail rownd yn cynnwys newidiadau i eiriad a diwyg y deunyddiau a'r cwestiynau, a wnaed yn sgil canfyddiadau o'r rownd gyntaf. Cyflawnwyd dau gyfweiliad ffôn gyda phobl a oedd yn hunangyflogedig wedi'r ail rownd o brofion i ddarparu ar gyfer pobl hunangyflogedig oedd wedi canslo eu cyfweiliadau ar ddiwrnod y gwaith maes.

Recriwtio atebwyr

- 2.9 Mae cyfweiliadau gwybyddol yn ansoddol eu natur, felly mae'r samplau yn fwriadus ac wedi'u llunio i adlewyrchu ystod ac amrywiaeth y boblogaeth sydd dan sylw, yn hytrach na bod yn ystadegol gynrychiadol. Roedd y cwtâu a bennwyd ar gyfer y prosiect hwn yn adlewyrchu'r mathau o oedolion oedd yn ofynnol i sicrhau fod y gwahanol opsiynau sy'n ddilyniant i'r cwestiynau yn cael eu cwmpasu. Roedd y cwtâu yn debyg yn y ddwy rownd o brofion.
- 2.10 Fe wnaeth ymchwilyr NatCen, sydd â phrofiad helaeth o gynnal cyfweiliadau gwybyddol, gynnal 20 cyfweiliad gyda recordiad sain yn ystod y ddwy rownd, gyda dau gyfweiliad ffôn atodol wedi'r ail rownd. Cafodd atebwyr eu cyfweld mewn man cyfarfod niwtral yn y ddau leoliad, hynny yw, roedd y man cyfarfod yn lleoliad cymunedol, nid cartrefi'r atebwyr na swyddfa'r ymchwilyr. Fe wnaeth y cyfweiliadau bara oddeutu awr a gwnaed recordiad sain ohonynt â chaniatâd yr atebwyr. Rhoddwyd cydnabyddiaeth ariannol o £20 i atebwyr i ddiolch iddynt am eu help ac i dalu am unrhyw gostau teithio yn rownd gyntaf y profion, a £25 yn ail rownd y profion i annog pobl hunangyflogedig i gyfranogi.
- 2.11 Cafodd atebwyr y ddwy rownd o brofion gwybyddol eu recriwtio cyn y profion trwy law asiantaeth recriwtio. Cynhaliwyd holiaduron sgrinio i recriwtio atebwyr trwy amrywiaeth o ddulliau, yn cynnwys ar y stryd, mewn canolfannau siopau neu fannau cyhoeddus eraill, ac o ddrws i ddrws. Cynhaliwyd cyfweiliadau Rownd 1 y profion yng Nghaerdydd a chyfweiliadau Rownd 2 yn Wrecsam, er mwyn profi'r cwestiynau ag amrywiaeth bobl o dref fawr a thref lai mewn gwahanol rannau o Gymru. Gwnaed hynny oherwydd gallai lleoliad daearyddol effeithio ar atebion atebwyr i gwestiynau'r arolwg. Cynhaliwyd deg cyfweiliad ym mhob lleoliad. Cafodd dau ymatebydd ychwanegol eu recriwtio i ateb adran ynghylch incwm hunangyflogaeth dros y ffôn yn Rownd 2 oherwydd i'r atebwyr ganslo ar y diwrnod y cynhaliwyd y gwaith maes, i gyflawni'r cwota o atebwyr hunangyflogedig yn Rowndiau 1 a 2. Mae Tabl 2.1 yn dangos nodweddion y sampl o gyfweiliadau gwybyddol Rownd 1, a Thabl 2.2 yn dangos nodweddion sampl cyfweiliadau gwybyddol Rownd 2, gan gynnwys y ddau atebwr hunangyflogedig ychwanegol.

Tabl 2.1. Nodweddion sampl rownd 1

Caerdydd Rownd 1		Nifer â'r nodwedd
Rhyw	Gwryw	4
	Benywaidd	6
Oed	18-29	2
	30-49	3
	50-64	2
	65+	3
Cymhwyster uchaf	Safon Uwch/Uwch Atodol neu well	4
	TGAU neu is	6
Statws cyflogaeth	Cyflogai	6
	Hunangyflogedig	0
	Di-waith	4
Mwy nag un swydd	Oes	1
	Nac oes	9
Hawlio budd-dal	Ydi	6
	Nac ydi	4

Tabl 2.2. Nodweddion sampl rownd 2

Wrecsam Rownd 2		Nifer â'r nodwedd
Rhyw	Gwryw	5
	Benywaidd	7
Oed	18-29	3
	30-49	5
	50-64	2
	65+	2
Cymhwyster uchaf	Safon Uwch/Uwch Atodol neu well	6
	TGAU neu is	6
Statws cyflogaeth	Cyflogai	5
	Hunangyflogedig	3
	Di-waith	4
Mwy nag un swydd	Oes	2
	Nac oes	10
Hawlio budd-dal	Ydi	5
	Nac ydi	7

Dadansoddiad

2.12 Cafodd y cyfweiliadau eu crynhoi a'u mapio gan ymchwilwyr, ac fe wnaethant adolygu recordiad sain pob cyfweiliad, yr atebion i'r arolwg, ac unrhyw nodiadau a gofnodwyd ar daflenni'r cwestiynau ymchwiliol. Mae mapio yn golygu fod yr holl grynodedau o'r cyfweiliadau yn cael eu cofnodi ar gofnod Excel sydd â strwythur penodol. Cafodd yr ymatebion i bob cwestiwn arbrofol eu nodi yn y matrices, ynghyd â sylwadau a wnaed gan y cyfwelwyr, unrhyw nodiadau ynghylch meddwl ar lafar ac ymatebion i'r cwestiynau ymchwiliol wedi'u sgrïptio. Felly, gellir darllen data yn llorweddol fel cofnod o achos cyfan unigolyn, neu yn fertigol fesul cwestiwn, gan ystyried bob achos. Ar ôl cwblhau'r matrices, cafodd y data yn y matrices eu hadolygu yn thematig. Mae'r argymhellion sydd yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar y drafodaeth i adrodd yn ôl, a oedd yn cynnwys yr ymchwilwyr a chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru, yn ogystal â dadansoddiad llawn o'r data.

Amseru

- 2.13 Yn nhablau 4.1 a 4.2, rydym ni wedi darparu amcangyfrifon o'r amser oedd ei angen i ofyn y cwestiynau incwm a brofwyd yn wybyddol yn Rownd 2. Nodwyd dau amser; mae'r cyntaf yn deillio o broses codio ble nodir amser amcangyfrifedig ar gyfer cwestiwn ar sail y math o gwestiwn (mae rhagor o fanylion ynghylch y broses codio ar gael ym Mhennod 4). Hefyd, cafodd y cwestiwn ei amseru yn cael ei ofyn a'i ateb ddwywaith, ac yna, cofnodwyd amser cyfartalog y cwestiwn. Amserwyd cwestiynau gyda'r un geiriad a hyd unwaith yn unig a defnyddio'r amseriad hwnnw ar gyfer pob cwestiwn yn y categori penodol hwnnw.

3. Casgliadau ac argymhellion

Adolygiad desg

- 3.1 Adolygwyd y cwestiynau yn unol â'r amcanion sy'n ymwneud â'r rhan hon o'r prosiect. Yr amcanion hyn yw:

Profi cwestiynau:

Amcan un: Sicrhau fod cwestiynau'r arolwg a'r dewisiadau ateb yn glir ac yn hawdd eu deall, fod amrywiaeth digonol o ddewisiadau ateb wedi'u darparu, a nodi unrhyw gwestiynau sy'n neilltuol o broblemus;

Amcan dau: Canfod a yw'r atebwyr yn teimlo'n gyfforddus yn defnyddio'r cardiau arddangos a bod y fformat a diwyg yn gweithio i'r diben a fwriadwyd;

Amcan tri: Canfod a oes unrhyw is-grwpiau penodol o'r boblogaeth yn debygol o wynebu anawsterau wrth geisio ateb unrhyw gwestiynau;

Amcan pump: Archwilio beth ellid gwneud i wneud y cwestiynau incwm:

- mor dderbyniol â phosibl i atebwyr yr arolwg, gan gynnwys a ddylid cwestiwn incwm ar ffurf byr i atebwyr sy'n gwrthod ateb y set llawn;
- yn gyflymach a haws i'w cwblhau; ac
- yn debygol o ddarparu gwybodaeth sydd mor gywir â phosibl.

- 3.2 Defnyddiwyd fersiwn wedi'i gwtogi o'r System Gwerthuso Holiaduron (QAS-99) i gyflawni adolygiad desg cychwynnol ar y cwestiynau incwm, a awgrymwyd i'w cynnwys yn yr Arolwg Cenedlaethol. Mae'r QAS-99 yn darparu dull systematig i adolygu cwestiynau arolwg, sy'n golygu y dylid cipio unrhyw broblemau posibl yn ystod y broses; fodd bynnag, mae'n canolbwyntio ar y problemau posibl gyda chwestiynau ac nid yw'n caniatáu i ymchwilyr ehangu os nad yw cwestiwn yn gweithio'n dda. Defnyddiwyd yr wyth pennawd lefel uchaf o'r QAS-99 i asesu'r cwestiynau newydd; oherwydd y cyfyngiadau amser, ni fyddai wedi bod yn bosibl defnyddio'r rhestr wirio lawn, o ystyried ei fod yn cwmpasu pob pennawd mewn manylder, ac yn defnyddio sawl is-bennawd ar gyfer pob un. Y penawdau lefel uchaf QAS-99 a ddefnyddiwyd ar gyfer yr adolygiad oedd:

- **DARLLEN:** Pennu os yw'n anodd i'r cyfwelwyr ddarllen y cwestiwn mewn dull cyson i bob atebwr.

- **CYFARWYDDIADAU:** Chwilio am broblemau gydag unrhyw gyflwyniadau, cyfarwyddiadau, neu esboniadau o safbwynt yr atebwr.
- **EGLURDER:** Nodi problemau ynghylch cyfathrebu bwriad neu ystyr y cwestiwn i'r atebwr.
- **TYBIAETHAU:** Pennu a oes unrhyw broblemau gyda thybiaethau a wnaed neu resymeg sylfaenol.
- **GWYBODAETH/COF:** Gwirio os yw'r atebwr yn debygol o beidio gwybod neu gael anhawster cofio gwybodaeth.
- **SENSITIFRWYDD/RHAGFARN:** Asesu cwestiynau o natur neu eiriad sensitif, ac ar gyfer rhagfarn.
- **CATEGORIÄU YMATEB:** Asesu digonolrwydd yr ystod o ymatebion i'w cofnodi.
- **ARALL:** Chwilio am broblemau na nodwyd yng Nghamau 1 - 7.

3.3 Adolygydd yr ymchwilydd bob cwestiwn yn erbyn y penawdau i nodi unrhyw broblemau posibl gyda'r cwestiynau hyn. Cyflawnwyd prawf dall hefyd i sicrhau bod yr ymchwilydd yn defnyddio'r ffrâm codio mewn modd cyson. Roedd y prawf yma yn gofyn i ddau ymchwilydd adolygu'r un set o 20 cwestiwn a ddetholwyd ar hap yn annibynnol, gan ddilyn hyn trwy wirio bod yr ymchwilydd wedi cofnodi'r un mathau o broblemau. . Cofnododd yr ymchwilydd faterion a gwneud awgrymiadau ynghylch sut i addasu'r cwestiynau i daclo problemau posibl. Trafodwyd unrhyw wahaniaethau rhwng adolygiadau'r ymchwilydd. Pan nododd yr ymchwilydd broblem yn un o'r penawdau, fe neilltuont ateb cadarnhaol a gwneud sylwadau ar hyn. Yn dilyn asesiad unigol o'r cwestiynau, cyflawnodd pob ymchwilydd adolygiad lefel uchel o adolygiad yr ymchwilydd arall, gan ychwanegu sylwadau atodol ble nodwyd problemau gyda'r cwestiynau. Trafodwyd unrhyw sylwadau ac awgrymiadau ar gyfer newidiadau i gwestiynau gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod newidiadau i'r cwestiynau yn addas i ddiben y cwestiwn.

3.4 Cyflwynir casgliadau'r adolygiad desg yn Atodiad B.

Profion gwybyddol

- 3.5 Mae pennod hon yr adroddiad yn amlinellu casgliadau ac argymhellion y ddwy rownd o brofion gwybyddol. Dangosir geiriad y cwestiynau gwreiddiol mewn blychau. Rhoddir crynodeb ar gyfer pob set o gwestiynau, a gwneir argymhellion. Gwneir newidiadau i gwestiynau rhwng rowndiau mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru. Nid oedd y newidiadau hyn yn adlewyrchu'r argymhellion a wnaed pob tro. Gellir gweld geiriad y cwestiwn terfynol yn Atodiad C

Cyflwyniadau a chwestiwn incwm cyffredinol OIQ1-2, Rownd 1

- 3.6 Yn dilyn cyflwyniad i'r cwestiynau incwm cafwyd cwestiwn yn holi am incwm personol yr atebwr o bob ffynhonnell dros y 12 mis diwethaf. Yn dilyn hyn cafwyd cwestiwn yn holi am gyfanswm incwm yr atebwr a'i bartner/phartner o bob ffynhonnell dros y 12 mis diwethaf.

GOFYN OLL

Cyflwyniad

Mae'r cwestiynau nesaf am incwm eich aelwyd. Byddant yn ein helpu i ddeall a yw cwestiynau eraill yn yr arolwg – er enghraifft, perchnogaeth cartref, defnydd rhyngurwyd a barn am wasanaethau cyhoeddus – wedi eu heffeithio gan lefel pobl o incwm. Er mwyn ein helpu i sicrhau bod yr wybodaeth mor gywir â phosibl, mae angen i ni holi am amrywiol fathau o incwm. Ond cofiwch y bydd eich holl atebion i mi yn gwbl gyfrinachol, a dim ond i ddibenion ymchwil y'i defnyddir. Ni fydd yn bosibl eich adnabod o'r canlyniadau a gyhoeddir.

OIQ1 Beth oedd cyfanswm eich incwm personol o bob ffynhonnell yn ystod y 12 mis diwethaf?

DARLLENWCH

Cyfrifwch incwm a dderbyniwch yn bersonol.

Cynhwyswch:

- Eich holl enillion (gan gynnwys goramser, cildyrnau, taliadau bonws, hunangyflogaeth)
- Pob pensiwn
- Unrhyw grantiau a bwrsariaethau i fyfyrwyr (ond nid benthyciadau)
- Unrhyw fudd-daliadau a chredydau treth (fel budd-dal plant, cymhorthdal incwm neu gredyd pensiwn)
- Unrhyw log o gynilion neu fuddsoddiadau
- Arian cadw tŷ gan aelodau eraill o'r aelwyd
- Unrhyw rhent o eiddo (wedi costau)

- Incwm arall (megis cynhaliaeth neu grantiau)

Peidiwch â didynnu:

Trethi, cyfraniadau Yswiriant Gwladol, Taliadau Yswiriant lechyd, cyfraniadau Pensiwn

CERDYN ARDDANGOS A

Yr wythnos	Y flwyddyn	Cod
Llai na £100	Llai na £5,200	1
£100 i £199	£5,200 i £10,399	2
£200 i £299	£10,400 i £15,599	3
£300 i £399	£15,600 i £20,799	4
£400 i £499	£20,800 i £25,999	5
£500 i £699	£26,000 i £36,399	6
£700 i £999	£36,400 i £51,999	7
£1,000 neu fwy	£52,000 neu fwy	8
Gwrthodwyd		-8
Ddim yn gwybod		-9

OS YN BYW GYDA PHARTNER

OIQ2 Beth oedd cyfanswm incwm eich aelwyd o bob ffynhonnell yn ystod y 12 mis diwethaf?

Cyfrifwch yr incwm rydych chi a'ch partner yn ei dderbyn.

Cynhwyswch:

- Eich holl enillion (gan gynnwys goramser, cildyrnau, taliadau bonws, hunangyflogaeth)
- Pob pensiwn
- Unrhyw grantiau a bwrsariaethau i fyfyrwyr (ond nid benthyciadau)
- Unrhyw fudd-daliadau a chredydau treth (fel budd-dal plant, cymhorthdal incwm neu gredyd pensiwn)
- Unrhyw log o gynilion neu fuddsoddiadau
- Arian cadw tŷ gan aelodau eraill o'r aelwyd
- Unrhyw rhent o eiddo (wedi costau)
- Incwm arall (megis cynhaliaeth neu grantiau)

Peidiwch â didynnu:

Trethi, cyfraniadau Yswiriant Gwladol, cyfraniadau pensiwn neu Daliadau Yswiriant lechyd

CERDYN ARDDANGOS A

Yr wythnos	Y flwyddyn	Cod
Llai na £100	Llai na £5,200	1
£100 i £199	£5,200 i £10,399	2
£200 i £299	£10,400 i £15,599	3
£300 i £399	£15,600 i £20,799	4
£400 i £499	£20,800 i £25,999	5
£500 i £699	£26,000 i £36,399	6
£700 i £999	£36,400 i £51,999	7
£1,000 neu fwy	£52,000 neu fwy	8
Gwrthodwyd		-8
Ddim yn gwybod		-9

Canfyddiadau allweddol

Cyflwyniad

- Roedd yr atebwyr i gyd yn cael bod y cyflwyniad yn glir a hawdd i'w ddeall.
- Roeddynt yn credu bod gan LIC ddiddordeb mewn cymharu incwm yn erbyn gwahanol bynciau'r arolwg a fyddai yn ei dro yn eu galluogi i benderfynu pa wasanaethau oedd yn flaenoriaeth ar gyfer cyllid. Ni chrybwyllodd yr atebwyr wasanaethau penodol yn ôl enw. Nid oedd un atebwr yn meddwl bod yr esboniad ynghylch pam fod yr wybodaeth yn cael ei chasglu yn reswm digon da, ond rhoddodd atebion trwy gydol gweddill y cyfweiliad am ei fod wedi cydsynio i'w gyfweld. Mae'n bosibl ei fod hefyd wedi ei ddylanwadu gan yr ysgogiad oedd wedi ei gynnig.
- Roedd mwyafrif yr atebwyr yn teimlo'n gyfforddus wedi cael gwybod pam fod yr wybodaeth hon o ddiddordeb i LIC ac y byddai'n gyfrinachol.
- 'Defnyddir i ddibenion ymchwil yn unig': yn seiliedig ar ddefnyddio'r cymal hwn yn y cyflwyniad, roedd atebwyr yn credu y byddai'r atebion a roddont yn cael ei defnyddio i lunio ystadegau yn unig, ac y byddai eu hatebion yn parhau i fod yn gyfrinachol. Ni esboniont pa fathau o ystadegau oeddent yn meddwl byddai'n cael eu llunio o'r data.

OIQ1

- Roedd pob un o'r atebwyr yn gallu rhoi ateb i'r cwestiwn hwn, hyd yn oed pan roedd ganddynt sawl ffynhonnell o incwm i'w gyfrifo. Rhoddodd y mwyafrif amcangyfrif oedd yn hawdd iddynt ei wneud o ystyried y bandiau a gyflwynwyd iddynt. Dywedodd un atebwr ei fod yn rhoi dyfaliad bras iawn ac y byddai angen edrych ar ei waith papur i roi swm mwy cywir gan nad oedd yn siŵr faint a dderbyniodd mewn llog.
- Arsylwodd ambell atebwr y byddai wedi bod yn well ganddynt roi ateb yn seiliedig ar ffigwr misol, gan eu bod yn gwybod faint oedd eu pensiwn neu gyflog ar gyfer pob mis, ond roedd yn rhaid cyfrifo i weld faint oeddynt yn ei dderbyn pob blwyddyn.
- Arsylwodd un atebwr bod geiriad y cwestiwn yn faith, ond roedd yn dal i allu ateb y cwestiwn.

OIQ2

- Eto, roedd pob un o'r atebwyr oedd â phartner yn gallu rhoi ateb i'r cwestiwn hwn. Rhoddodd y mwyafrif amcangyfrif, yn arbennig os oedd eu partner yn gweithio goramser, ond roedd hyn yn hawdd iddynt ei wneud gyda'r opsiynau ymateb a ddarparwyd.
- Tra bod atebwyr yn cynnwys eu hincwm eu hunain ac incwm eu partner yn unig wrth ateb, roedd datganiad y cwestiwn yn awgrymu bod y cwestiwn yn holi am incwm pob aelod o aelwyd.
- Adroddodd cyfwelwyr ei bod yn teimlo'n lletchwith ac ailadroddus darllen manylion llawn beth i'w gynnwys / eithrio wedi gofyn OIQ1.

Cyffredinol

- Roedd mwyafrif yr atebwyr yn teimlo'n gyfforddus yn ateb y cwestiynau hyn. Dywedodd ambell un eu bod braidd yn bersonol, ond roedd y cyflwyniad yn datgan bod yr atebion a roddant yn gyfrinachol wedi tawelu eu meddyliau.
- Dywedodd mwyafrif yr atebwyr na fyddent yn edrych ar unrhyw ddogfennau i ateb y cwestiynau hyn gan y gallent roi ateb o fewn band.

Argymhellion ac awgrymiadau

- Awgrymwn y dylid cadw geiriad y cyflwyniad fel y mae ar hyn o bryd. Roedd yr atebwyr yn ei gael yn hawdd i'w ddeall ac wedi eu calonogi gan yr esboniad o pam fod gan LIC ddiddordeb yn yr wybodaeth hon, ac y byddai unrhyw ateb a roddont yn cael ei gadw'n gyfrinachol.
- Awgrymwn y dylid ychwanegu bandiau misol ar gyfer y ddau gwestiwn i alluogi'r rhai sy'n gwybod eu hincwm misol yn awtomatig i ateb yn hawdd a heb orfod cyfrifo. Dylai

hefyd ganiatáu i bobl deimlo'n gyfforddus yn ateb cwestiynau yn y dyfodol wrth feddwl am eu hincwm ar gyfer y mis.

- Argymhellwn y dylid newid geiriad OIQ2 i'w wneud yn gliriach o'r cychwyn y dylai'r atebwyr feddwl am eu hincwm eu hunain ac incwm eu partner yn unig, a pheidio cynnwys aelodau eraill o'r aelwyd. Awgrymwn hefyd mai dim ond os oes angen y dylid darllen geiriad llawn y cwestiwn gan ei fod yn ailadroddiad o gyfarwyddiadau'r cwestiwn cyntaf yn eithaf maith.

OIQ2 Gan feddwl am yr incwm rydych chi ac/neu eich partner yn ei dderbyn beth oedd cyfanswm eich incwm eich aelwyd o bob ffynhonnell yn ystod y 12 mis diwethaf?

~~Cyfrifwch yr incwm rydych chi a'ch partner yn ei dderbyn.~~

DARLLENWCH OS OES ANGEN

Cynhwyswch:

- Eich holl enillion (gan gynnwys goramser, cildyrnau, taliadau bonws, hunangyflogaeth)
- Pob pensiwn
- Unrhyw grantiau a bwrsariaethau i fyfyrwyr (ond nid benthyciadau)
- Unrhyw fudd-daliadau a chredydau treth (fel budd-dal plant, cymhorthdal incwm neu gredyd pensiwn)
- Unrhyw log o gynilion neu fuddsoddiadau
- Arian cadw tŷ gan aelodau eraill o'r aelwyd
- Unrhyw rhent o eiddo (wedi costau)
- Incwm arall (megis cynhaliaeth neu grantiau)

Peidiwch â didynnu:

Trethi, cyfraniadau Yswiriant Gwladol, cyfraniadau pensiwn neu Daliadau Yswiriant lechyd

Cyflwyniadau a chwestiwn incwm cyffredinol OIQ1-2, Rownd 2

- 3.7 Yn dilyn cyflwyniad i'r cwestiynau incwm cafwyd cwestiwn yn holi am incwm personol yr atebwr o bob ffynhonnell dros y 12 mis diwethaf. Yn dilyn hyn cafwyd cwestiwn yn holi am gyfanswm incwm yr atebwr a'i bartner/phartner o bob ffynhonnell dros y 12 mis diwethaf. Gwnaethpwyd mân newidiadau i eiriad QIQ2 yn dilyn rownd un y profion a fe ychwanegwyd ffigwr misol i'r opsiynau ymateb.

GOFYN OLL

Cyflwyniad

Mae'r cwestiynau nesaf am incwm eich aelwyd. Byddant yn ein helpu i ddeall a yw cwestiynau eraill yn yr arolwg – er enghraifft, perchnogaeth cartref, defnydd rhyngrwyd a barn am wasanaethau cyhoeddus – wedi eu heffeithio gan lefel pobl o incwm. Er mwyn ein helpu i sicrhau bod yr wybodaeth mor gywir â phosibl, mae

angen i ni holi am amrywiol fathau o incwm. Ond cofiwch y bydd eich holl atebion i mi yn gwbl gyfrinachol, a dim ond i ddibenion ymchwil y'i defnyddir. Ni fydd yn bosibl eich adnabod o'r canlyniadau a gyhoeddir.

OIQ1 Beth oedd cyfanswm eich incwm personol o bob ffynhonnell yn ystod y 12 mis diwethaf?

DARLLENWCH OS OES ANGEN Cyfrifwch incwm a dderbyniwch yn bersonol.

Cynhwyswch:

- Eich holl enillion (gan gynnwys goramser, cildyrnau, taliadau bonws, hunangyflogaeth)
- Pob pensiwn
- Unrhyw grantiau a bwrsariaethau i fyfyrwyr (ond nid benthygiadau)
- Unrhyw fudd-daliadau a chredydau treth (fel budd-dal plant, cymhorthdal incwm neu gredyd pensiwn)
- Unrhyw log o gynilion neu fuddsoddiadau
- Arian cadw tŷ gan aelodau eraill o'r aelwyd
- Unrhyw rhent o eiddo (wedi costau)
- Incwm arall (megis cynhaliaeth neu grantiau)

Peidiwch â didynnu:

Trethi, cyfraniadau Yswiriant Gwladol, Taliadau Yswiriant lechyd, cyfraniadau Pensiwn

CERDYN ARDDANGOS A

Yr wythnos	Y mis	Y flwyddyn	Cod
Llai na £100	Llai na £429	Llai na £5,200	1
£100 i £199	£430 i £869	£5,200 i £10,399	2
£200 i £299	£870 i £1,299	£10,400 i £15,599	3
£300 i £399	£1,300 i £1,729	£15,600 i £20,799	4
£400 i £499	£1,730 i £2,169	£20,800 i £25,999	5
£500 i £699	£2,170 i £3,029	£26,000 i £36,399	6
£700 i £999	£3,030 i £4,329	£36,400 i £51,999	7
£1,000 neu fwy	£4,330 neu fwy	£52,000 neu fwy	8
Gwrthodwyd			-8
Ddim yn gwybod			-9

OS YW'N BYW GYDA PHARTNER

OIQ2 Gan feddwl am yr incwm rydych chi ac/neu eich partner yn ei dderbyn beth oedd cyfanswm eich incwm o bob ffynhonnell yn ystod y 12 mis diwethaf?

DARLLENWCH OS OES ANGEN

Cynhwyswch:

- Eich holl enillion (gan gynnwys goramser, cildyrnau, taliadau bonws, hunangyflogaeth)
- Pob pensiwn
- Unrhyw grantiau a bwrsariaethau i fyfyrwyr (ond nid benthyciadau)
- Unrhyw fudd-daliadau a chredydau treth (fel budd-dal plant, cymhorthdal incwm neu gredyd pensiwn)
- Unrhyw log o gynilion neu fuddsoddiadau
- Arian cadw tŷ gan aelodau eraill o'r aelwyd
- Unrhyw rhent o eiddo (wedi costau)
- Incwm arall (megis cynhaliaeth neu grantiau)

Peidiwch â didynnu:

Trethi, cyfraniadau Yswiriant Gwladol, cyfraniadau pensiwn neu Daliadau Yswiriant lechyd

CERDYN ARDDANGOS A

Yr wythnos	Y mis	Y flwyddyn	Cod
Llai na £100	Llai na £429	Llai na £5,200	1
£100 i £199	£430 i £869	£5,200 i £10,399	2
£200 i £299	£870 i £1,299	£10,400 i £15,599	3
£300 i £399	£1,300 i £1,729	£15,600 i £20,799	4
£400 i £499	£1,730 i £2,169	£20,800 i £25,999	5
£500 i £699	£2,170 i £3,029	£26,000 i £36,399	6
£700 i £999	£3,030 i £4,329	£36,400 i £51,999	7
£1,000 neu fwy	£4,330 neu fwy	£52,000 neu fwy	8
Gwrthodwyd			-8
Ddim yn gwybod			-9

Canfyddiadau allweddol

Cyflwyniad

- Eto, roedd yr atebwyr i gyd yn cael bod y cyflwyniad yn glir a hawdd i'w ddeall.
- Roeddynt yn credu bod gan LIC ddiddordeb mewn cymharu barn pobl a gwneud gwasanaethau lleol yn well a dyma pam eu bod eisiau gwybod am incwm.

"Dim ond i gasglu gwybodaeth, p'un a yw pobl mewn anhawster neu beidio, r sut i wella bywydau pobl yn gyffredinol" (Cyfeirnod: FD01, Benyw, Oed: 30-49, Cyflogedig)

- Roedd atebwyr yn meddwl bod y cymal 'defnyddir i ddibenion ymchwil yn unig' yn golygu cadw eu gwybodaeth yn gyfrinachol, peidio ei adrodd i'r dyn treth a pheidio ei roi i drydydd parti.

OIQ1

- Ar y cyfan roedd atebwyr yn teimlo bod hwn yn gwestiwn hawdd i'w ateb. Roedd rhai yn gwybod eu hatebion yn union gan eu bod yn gwybod faint oeddynt yn derbyn cyn didyniadau. Roedd eraill yn darparu amcangyfrifon trwy roi cyfartaledd o'r swm a dderbyniont gan fod eu cyflog yn amrywio.
- Holodd dau o bobl a ddylent fod yn ateb dim ond eu hincwm nhw neu os dylent gynnwys incwm eu partneriaid a phlant hefyd.
- Defnyddiodd ambell un o'r atebwyr eu ffonau fel cyfrifianellau i gyfrifo eu hateb. Roedd hyn oherwydd bod ganddynt fwy nag un ffynhonnell incwm, oedd yn cael eu talu mewn cyfnodau gwahanol ac roedd yn rhaid iddynt gyfrifo'r ateb i'w roi.
- Dywedodd atebwyr eu bod yn hoffi'r opsiynau ateb mewn bandiau gan ei fod yn caniatáu ar gyfer cyflogau amrywiol a chyfartaledd os oedd angen.
- Pan ofynnwyd a oeddynt yn meddwl am incwm neu wedi didyniadau, roedd y mwyafrif yn meddwl am incwm cyn didyniadau. Roedd un atebwr yn meddwl am incwm wedi didyniadau, ond teimlai gan ei fod yn gwestiwn band, ni fyddai ei hymateb yn newid pe byddai'n rhaid iddi feddwl am gyflog cyn didyniadau. Roedd eraill oedd yn hawlio budd-daliadau heb unrhyw ddidyniadau felly roedd yn hawdd iddynt feddwl fel hyn wrth roi ateb i'r cwestiwn.
- Ni wnaeth un person gynnwys arian cadw tŷ mae'n ei dderbyn gan ei merch. Esboniodd bod yr arian yn mynd ar fwyd i'w merch, felly nid oedd yn cael ei ystyried fel incwm. Ni fyddai ei band ateb wedi newid pe byddai wedi ei gynnwys yn ei hymateb.

OIQ2

- Ar y cyfan roedd pobl yn teimlo bod y cwestiwn hwn yn hawdd i'w ateb ac yn gwybod beth oedd incwm eu partner. Roedd un atebwr yn ei chael ychydig yn anoddach i'w ateb na'r cwestiwn blaenorol am ei bod yn cael ei thalu'n fisol tra bod ei phartner yn cael ei dalu'n wythnosol. Cyfrifodd un arall, ble roedd cyflog ei gŵr yn amrywio, y cyfartaledd yn seiliedig ar ei incwm arferol.
- Roedd un atebwr yn falch bod y cwestiwn yn holi am incwm cyn didyniadau gan na fyddai'n gwybod beth yw cyflog ei wraig wedi didyniadau.

Cyffredinol

- Dywedodd pawb eu bod yn teimlo'n gyfforddus yn ateb y cwestiynau hyn ac na fyddent yn teimlo bod angen cyfeirio'n ôl at unrhyw beth wrth roi ateb.

Argymhellion ac awgrymiadau

- Argymhellwn y dylid cadw'r cyflwyniad a'r geiriad fel y maent.
- Awgrymwn y dylid newid ym mha drefn yr holir y cwestiynau, fel bod pobl yn gallu meddwl amdanynt eu hunan a'u partner cyn meddwl amdanynt eu hunain yn unig i osgoi unrhyw ansicrwydd am bwy i gynnwys wrth ateb.

Incwm atebwr o brif swydd fel cyflogai INC00-INC20, Rownd 1

- 3.8 Ni ofynnwyd pob cwestiwn yn yr adran hon oherwydd y llwybro (ni wnaeth yr atebwyr ateb 'ddim yn gwybod' i unrhyw un o'r cwestiynau ac nid oeddynt yn hunangyflogedig). Gofynnodd y cwestiynau canlynol faint o swyddi a fu gan yr atebwyr yn yr wythnos flaenorol, p'un a oeddynt yn gyflogai, hunangyflogedig neu'r ddau, beth oedd eu hincwm, pa gyfnod amser oedd eu hateb yn ei gwmpasu, os oedd y swm hwnnw yn union gywir neu'n amcangyfrif, a faint o oriau a fu'n gweithio i ennill yr incwm hwnnw.

HOLWCH OS 1 neu 2 AR Q5 (MEWN GWAITH CYFLOGEDIG NEU'N HUNANGYFLOGEDIG)

INC00

Faint o swyddi oedd gennych chi yn ystod yr wythnos a ddaeth i ben ddydd Sul diwethaf?

CYFWELYDD: Cyfrwch aseiniadau unigol yn berthnasol i un swydd (e.e. gwaith a gyflawnir gan blymiwr) yn rhan o un swydd.

COD SENGL

1	1	EWCH I INC0
2	2	
3 neu fwy	3	

HOLWCH OS 1 neu 2 AR Q5 (MEWN GWAITH CYFLOGEDIG NEU'N HUNANGYFLOGEDIG)

INC0

A oeddech chi'n gweithio fel cyflogai neu'n hunangyflogedig?

Cyflogai	1	EWCH I INC1
Hunangyflogedig	2	EWCH I INC17
Y ddau	3	EWCH I INC1

HOLWCH OS 1-Cyflogai NEU 3-Y ddau AR INC0

INC1

Nawr hoffwn ofyn i chi am eich cyflog. Faint yw eich cyflog clir arferol ar gyfer eich [OS 2 NEU 3 AR INC00 - prif] swydd [OS 2 neu 3 AR INC00 . Hynny yw, y prif waith a wnewch am y mwyaf o oriau yr wythnos] [OS 3 AR INC0 - fel cyflogai]?

Cyflog clir yw wedi'r holl ddidyniadau ar gyfer treth, yswiriant gwladol, taliadau undeb ac ati, ond mae'n cynnwys goramser, taliadau bonws, comisiwn neu gildyrnau.

PROCIWCH I GAEL YR AMCANGYFRIF GORAU I'R £ AGOSAF

MAE FYNFY I CHI I OFYN I'R ATEBWR OS YW EISIAU ADRODD E.E. CYFRADD FESUL AWR, NEU GYFLOG BLYNYDDOL – EIR AR DRYWYDD HYN MEWN CWESTIYNAU DILYNOL.

OS NAD OES SWM ARFEROL, RHOWCH 0

RHOWCH SWM		EWCH I INC2
Dim cyflog arferol	1	EWCH I INC9
Gwrthodwyd	-8	EWCH I INC17
Ddim yn gwybod (DIGYMELL YN UNIG)	-9	EWCH I INC5

GOFYNNWCH OS RHODDWDYD SWM YN INC1

INC2

Faint o gyfnod amser mae'r cyflog hwnnw yn ei gwmpasu?

CERDYN ARDDANGOS A1
COD SENGL

1	Awr	1	EWCH I INC3
2	Diwrnod	2	
3	Wythnos	3	
4	Pythefnos	4	
5	4 wythnos	5	
6	Mis calendr	6	
7	Blwyddyn	7	
8	Arall (nodwch)	8	
	Ddim yn gwybod (DIGYMELL YN UNIG)	-9	

GOFYNNWCH OS 8-Arall AR INC2

INC2OT

Beth oedd y cyfnod?

GOFYNNWCH OS RHODDWDYD SWM YN INC1

INC3

Dywedoch bod eich cyflog clir arferol yn [rhowch ateb INC1], a yw hynny'n union gywir neu'n amcangyfrif?

ARSYLWCH: A WNAETH YR ATEBWR WIRIO SLIP CYFLOG NEU RYWBETH TEBYG?

COD SENGL

Union, wedi gwirio manylion	1	EWCH I INC4
Union, heb wirio manylion	2	
Amcangyfrif	3	

GOFYNNWCH OS RHODDWDYD SWM YN INC1

INC4

Faint o oriau'r wythnos ydych chi fel arfer yn gweithio ar gyfer y cyflog hwnnw, ac eithrio egwyl i gael bwyd ond yn cynnwys goramser gyda thâl?

CYMERWCH GYFARTALEDD OS YW'N AMRYWIO.

CYNHWYSWCH ORIAU 'AR ALW' OS TALWYD AMDANYNT AR 1/3
NEU FWY O'R GYFRADD FESUL AWR ARFEROL

RHOWCH SWM

Ddim yn gwybod (DIGYMELL YN UNIG)

-9

EWCH I INC17

GOFYNNWCH OS 1-Dim cyflog arferol AR INC1

INC9

Y tro diwethaf i chi gael eich talu [OS 2 NEU 3 AR INC00 - ar gyfer eich prif swydd], beth oedd cyfanswm eich cyflog clir?

Cyflog clir yw wedi'r holl ddiidyniadau ar gyfer treth, yswiriant gwladol, ffioedd undeb ac ati, ond mae'n cynnwys goramser, taliadau bonws, comisiwn neu gildyrnau.

PROCIWCH I GAEL YR AMCANGYFRIF GORAU I'R £ AGOSAF

RHOWCH SWM

Gwrthodwyd

Ddim yn gwybod (DIGYMELL YN UNIG)

-8

-9

EWCH I INC10

EWCH I INC17

EWCH I INC13

Canfyddiadau allweddol

INC00

- Roedd pob atebwr a atebodd y cwestiwn hwn yn gallu rhoi ymateb yn hawdd.
- Crybwyllodd un atebwr wrth brocio ei bod yn meddwl bod y cyfnod amser a ddefnyddiwyd yn yr holiadur yn 'rhyfedd' oherwydd na fyddai pobl yn newid swyddi mor aml. Awgrymodd y byddai'n fwy priodol i ofyn am y mis blaenorol. Dywedodd atebwr arall y byddai'n haws gofyn a oeddynt wedi cael mwy nag un swydd gyflogedig yn yr wythnos flaenorol.

INC0

- Ar y cyfan roedd pobl yn teimlo bod y cwestiwn hwn yn hawdd i'w ateb ac yn gwybod beth oedd incwm eu partner. Roeddynt yn deall y gwahaniaeth rhwng rhywun oedd yn gyflogai a rhywun oedd yn hunangyflogedig yn hawdd iawn. Disgrifiwyd y gwahaniaeth fel cyflogwr yn trefnu eich treth os oeddech chi'n gyflogai neu orfod ei wneud eich hun, a bod yn fos arnoch chi'ch hun os ydych yn hunangyflogedig.

INC1

- Roedd pob atebwr y gofynnwyd y cwestiwn hwn iddynt yn gallu rhoi ateb. Rhoddodd rhai atebwyr ateb union, tra bod eraill wedi cyfrifo cyfartaledd yn seiliedig ar eu cyflog arferol.

- Rhoddodd rhai o'r atebwyr gyfartaledd y swm a dalwyd iddynt yn ystod y misoedd diwethaf i roi ffigwr gan eu bod wedi derbyn taliadau bonws seiliedig ar berfformiad neu roedd eu gwaith yn galw am weithio oriau goramser amrywiol, felly doedd eu cyflog ddim yn sefydlog – dim ond wrth brocio y daeth hyn i'r amlwg.
- Roed dun atebwr yn credu y dylai'r cwestiwn gynnwys y gair 'cyfartaledd' oherwydd gallai cyflogau amrywio i bobl oedd yn gweithio goramser neu'n derbyn taliadau bonws.
- Roedd un atebwr yn disgwyl diffiniad o'r cyfnod amser y dylai roi ateb amdano cyn rhoi ateb i'r cwestiwn.
- Rhoddodd un atebwr ffigwr wedi ei rowndio ar gyfer y flwyddyn, gan ddweud ei fod yn union gywir, ond nid oedd yn siŵr os oedd hyn wedi didyniadau.

INC2

- Roedd atebwyr yn cael hwn yn gwestiwn hawdd i'w ateb ac fe ddetholwyd ystod o gyfnodau amser o'r cerdyn arddangos. Ni theimlai atebwyr bod unrhyw beth ar goll o'r cerdyn.

INC3

- Eto, fe weithiodd y cwestiwn hwn yn dda gydag atebwyr. Roeddynt yn teimlo'n gyfforddus yn dweud eu bod yn rhoi cyfartaledd pan ofynnwyd y cwestiwn hwn iddynt.

INC4

- Roedd atebwyr oedd yn gweithio oriau sefydlog yn teimlo bod hwn yn gwestiwn hawdd i'w ateb. Roedd ychydig yn anoddach i atebwyr a allai weithio goramser. Roedd un atebwr wedi cam-glywed y dylai gynnwys goramser, felly fe newidiodd ei ateb wedi 'r cwestiwn gael ei ailadrodd. Rhoddodd un arall ei horiau contract oherwydd bod faint o oramser a wnâi yn amrywio. Roedd un atebwr yn cael cyflog am oriau contract, felly rhoddodd y swm yma ond gallai'r oriau a weithiai pob wythnos amrywio oherwydd gweithio hyblyg.

INC5-INC8

- Ni ofynnwyd y cwestiynau hyn i unrhyw un yn ystod y profion. Pan holwyd wrth brocio mewn cwestiynau blaenorol, dywedodd mwyafrif yr atebwyr na fyddent yn gallu ateb y cwestiwn cyn didyniadau.

INC9

- Gofynnwyd y cwestiwn hwn i bobl oedd yn gallu ateb INC1-INC4 ond y canfuwyd wrth brocio nad oeddynt yn derbyn swm 'arferol' o gyflog oherwydd taliadau bonws amrywiol a goramser a weithiwyd. Roedd atebwyr yn gallu rhoi union ffigwr ar gyfer y cwestiwn hwn.

- Gofynnwyd INC13 i un atebwr ar ddamwain yn hytrach na INC9 a dywedodd na fyddai'n gallu ateb heb ddiyniadau, heb edrych ar ei slip cyflog, ac nad oedd yn gallu cael mynediad ato gan ei fod ar system gyfrifiadurol ei gwaith.

Cyffredinol

- Roedd pawb ond un atebwr yn teimlo'n gyfforddus yn ateb y cwestiynau hyn. Fe roddodd un atebwr atebion i'r cwestiynau, ond gan ddweud eu bod yn teimlo braidd yn bersonol. Dywedodd yr atebwr pe byddai'n ateb y cwestiynau hyn gartref, na fyddai wedi gwirio unrhyw waith papur i roi atebion.

Argymhellion ac awgrymiadau

- Awgrymwn bod geiriad y cwestiwn ar gyfer INC00 yn cael ei addasu i 'a ydych chi wedi cael mwy nag un swydd gyflogedig yn yr wythnos diwethaf', i ystyried y rhai nad ydynt ac a oedd yn teimlo bod geiriad y cwestiwn yn rhyfedd.
- Argymhellwn y dylid cadw geiriad y cwestiwn ar gyfer INC0 fel y mae, gan i'r cwestiwn hwn weithio'n dda yn ystod profion.
- Gellir gofyn cwestiwn o falen llaw i atebwyr ynghylch a yw cyflog yn amrywio o wythnos i wythnos neu fis i fis, a fydd yna'n eu galluogi i gael eu llwybro i'r cwestiynau 'dim cyflog arferol' yn y modwl. Atebodd cyfran dda o'r atebwyr y cwestiwn yn rhoi cyfartaledd o'u hincwm oherwydd faint o oramser y buont yn gweithio neu gan fod y taliadau bonws a dderbyniont yn amrywio. Daeth hyn i'r amlwg gan fwyaf wrth brocio ac nid wrth holi cwestiwn yr arolwg. Dylai LIC benderfynu os ydynt yn hapus gyda dim ond cyfartaledd ar gyfer y cwestiwn hwn, neu os hoffent i bobl gael eu llwybro ymlaen i gwestiynau, a fydd yn gofyn beth a dderbyniont y tro diwethaf iddynt gael eu talu.
- Argymhellwn y dylid ychwanegu cyfarwyddyd yn INC1 i esbonio i atebwyr y gallant roi eu hateb ar ba bynnag ffurf y dymunant, oherwydd roedd un atebwr yn disgwyl i hyn fod yn rhan o'r cwestiwn.
- Gweithiodd INC2 ac INC3 yn dda yn ystod y profion, felly rydym yn argymhell cadw'r geiriad yr un fath.
- Gall INC4 ofyn beth yw oriau contract atebwyr yn hytrach na faint o oriau maent yn gweithio am eu cyflog gan fod oriau nifer o atebwyr yn amrywio. Os yw LIC yn hapus i roi cyfartaledd, yna gellid defnyddio'r gair 'cyfartaledd' yn natganiad y cwestiwn. Fe argymhellom hefyd bod y geiriad yn cael ei amnewid yn y cwestiwn hwn, fel bod 'cynhwyswch oramser gyda thâl' yn cael ei grybwyll cyn yr eitemau y dylid eu heithrio.
- Dylid archwilio p'un a yw pobl yn ateb yn seiliedig ar eu cyflog wedi didyniadau yn fwy trylwyr yn y rownd nesaf o brofion, yn arbennig os yw atebwyr yn rhoi eu hateb fel ffigwr blynyddol sydd wedi ei rowndio.

- Dylid gweithredu unrhyw newidiadau a wneir i'r set yma o gwestiynau i gwestiynau tebyg trwy gydol y modwl.

Incwm atebwr o brif swydd fel cyflogai INC00-INC16, Rownd 2

